

## Cofnodion cyfarfod 6/6/19

*Cyn i'r cyfarfod gychwyn, amlinellodd Clare Mackintosh ei gweledigaeth ar gyfer Neuadd Buddug a dywedodd ei bod wedi cyflwyno dogfen strategol i Gyngor Gwynedd. Diolchwyd iddi am rannu'r wybodaeth hon gyda'r Cynghorwyr.*

**Preseanol:** Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Lis Puw (Clerc).

- 1. Croesawodd y Dirprwy Faer, Rhys Evans,** bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Maer Eifion Roberts, Sharon Evans a Dilwyn Morgan, Cynghorydd Cyngor Gwynedd.  
Cydymdeimlwyd yn fawr iawn gyda Gwilym Prys Edwards a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.
- 2. Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
- 3. Estynnodd y Dirprwy Faer** groeso arbennig i Matt Jenkins a James Williams o Gyfoeth Naturiol Cymru. Amlinellodd y ddau yn fyr yr hyn sydd yn digwydd pan fo llifogydd, yn cynnwys rhybuddion o'r Swyddfa Dywydd, larymau ar hyd glannau'r llyn a'r afonydd, cysylltiadau gyda'r Gwasanaethau Brys. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru i fynychu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ym mis Hydref i gyflwyno Cynllun Lleol ar gyfer Y Bala.

Cafwyd cyflwyniad ar y gwaith o uwchraddio Llyn Tegid; mae'r llyn yn cael ei ystyried fel argae ac felly y daw o dan ddeddfwriaeth argae. Mae llawer o waith cysylltu â chynllunio wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bellach, cryfhau'r argloddiau yw'r nod, yn hytrach na'u codi'n uwch. Bydd hyn yn golygu cael gwared ar lawer o goed, ond cafwyd sicrwydd y bydd plannu rhai eraill i wneud yn iawn am hyn. Dywedont eu bod yn cyd-weithio gyda Rheilffordd Llyn Tegid.

Disgwylir bydd y gwaith yn cychwyn yn Hydref 2020 ac yn parhau am 18 mis. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfarfod cyhoeddus i drigolion yn ystod gaeaf 2019.

I wneud yn iawn am yr anghyfleustra, dywedodd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried rhoi tarmac a gwell gatau ar hyd llwybr glan yr afon; gellid gosod mwy o feinciau ac ehangu a gwella'r parcio ar lan y llyn, yn ogystal â gwella'r ardal lansio.

Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorwyr fod angen cadw naturioldeb glan y llyn, a gofalu bod y gwair ar yr arglawdd yn cael ei dorri'n gyson. Mae angen cyn lleied â phosib o aflonyddwch yn ystod yr haf, a cheisio gweithio o gwmpas y gweithgareddau sydd yn dod â busnes i'r dref. Wrth ateb, cytunodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd eu strategaeth ymgysylltu wedi datblygu ac addawyd byddai'r wybodaeth ar y we yn cael ei uwchraddio. Dywedwyd y byddai oediad cyn y byddai'r estyniad i'r rheilffordd yn gallu agor. Diolchwyd i'r ddau gynrychiolydd am eu cyflwyniad.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/5/19.
5. **Materion y Clerc:** Cyhoeddwyd gwybodaeth am gyfarfod Bugeilio Cefn Gwlad ym mhen yr wythnos. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol yn dilyn ymddeoliad Edith Roberts ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth clodwiw i'r dref.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan trwy lythyr a diolchwyd iddo. Adroddodd fod Branwen Haf wedi ei phenodi yn gydlynnydd Theatr Derek Williams. Mae'r Cynghorydd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ar ddatblygu safle Ysgol Beuno Sant i fod yn ganolfan deuluol a fydd yn cynnwys creche ac ysgol feithrin. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i greu parth 20mya o flaen Ysgol Godre'r Berwyn a bydd y tair ysgol bresennol yn cyfrannu at lunio posteri diogelwch. Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi gwneud cais am oleuadau sy'n fflachio hefyd, ond mae hon yn broses hir. Cynhaliwyd cyfarfod o Hunaniaith i edrych ar y posibiladau o gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y dre. Mae wedi atgoffa Cyngor Gwynedd o'r angen i wella'r palmentydd yn ardal Anedd Wen o Heol Tegid. Mae wedi trosglwyddo cwyn am gerddoriaeth uchel mewn un o dafarndai'r dref i sylw'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd.
7. **Materion Cynllunio:** Dim Cais.
8. **Materion Cyllid:**
- i. Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a rhoddwyd ystyriaeth i'w gynnwys. Roedd y pwyntiau a godwyd yn faterion y bydd yr is-Bwyllgor Cyllid yn edrych arnynt yn fanylach, ond roedd bodlonrwydd llwyr ar y cynnwys drwyddi draw.
  - ii. Roddwyd ystyriaeth i'r Datganiadau ar y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2018 - 19, gan gynnwys Cysoniad y Banc, Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Tref Y Bala a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/19, a chytunwyd i'w harwyddo a'u hanfon at yr Archwilydd Allanol.
  - iii. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
  - iv. Cytunwyd i wneud y taliad am Hyfforddiant Cynllunio yn Llanrwst.
  - v. Rhoddwyd ystyriaeth i Gytundeb Toiledau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd a chytunwyd i drafod ymhellach gyda'r Cynghorydd Dilwyn Morgan cyn anfon y siec a baratowyd. Mynegwyd eto'r dymuniad am dreth leol ar y maes parcio a chytunwyd i holi am y grant parcio.
9. **Is-bwyllgor addurniadau'r Nadolig:** Derbyniwyd amcan-brisiau ond nid oedd yr is-bwyllgor wedi gallu cynnal cyfarfod manwl hyd yn hyn.
10. **Gohebiaeth:**
- i. Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am Orchymyn Gwarchod Coed (tir tu cefn i fferm y Red Lion).
  - ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganllaw Atodol Parc Cenedlaethol Eryri sydd i'w weld yn y Llyfrgell.
  - iii. Cyfeiriwyd cais gan BLDSA i ddefnyddio Llyn Tegid i sylw Parc Cenedlaethol Eryri.
  - iv. Derbyniwyd gwybodaeth am Bash Mawr Y Bala.

- v. Nodwyd derbyn ohebiaeth o ardal Llanfor ac o Gyngor Llandderfel am oryrru ar yr A494, a chadarnhawyd paroddrwydd i gyd-weithio gyda Chyngor Llandderfel ar y mater pe byddai angen.
- vi. Nodwyd derbyn cais gan Gyngor Gwynedd am enwau i banel Apêl Mynediad a Gwaharddiad disgyblion.
- vii. Un Llais Cymru: Cyfeiriwyd Cynghorwyr at Modylau hyfforddiant ar lein.

11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

12. **Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr a diolchwyd iddi hi a Tony Parry am archwilio meinciau'r Domen. Cytunwyd i ofyn am 3 pris ar gyfer adnewyddu'r meinciau ar y llwybr. Cytunwyd i ofyn i'r tirmon dynnu'r fainc o gwmpas y goeden ar ben ucha'r Domen. Cytunodd y Clerc i geisio cael baneri o ansawdd a fydd yn gallu gwrthsefyll y gwynt.

Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan sicrhau bod y swyddogion perthnasol yn nodi union safle mainc newydd Blaenddol; bydd John Caradog Williams wedyn yn trefnu ei gosod; ar yr un pryd bydd yn diogelu'r fainc tu nol y fflatiau.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref .** Mae difrod sylweddol yn digwydd yn y dref yn ystod nosweithiau Sul pob Gŵyl y Banc; cytunwyd i ofyn i'r Heddlu am eu presenoldeb ar yr adegau hyn.

Cytunwyd i roi mater dyfodol Neuadd Buddug ar Agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

*Amser gorffen: 9.00pm*